



Cofnodion Cyfarfod Fforwm Rhieni

Dyddiad: 21 Hydref 2025

Amser: 17:30

Lleoliad: Ysgol Dyffryn Conwy

1. Croeso a Chyflwyniadau

Croesawodd y Pennaeth y rhieni ac eglurodd pwrpas y fforwm.

2. Blaenoriaethau'r Ysgol ar gyfer 2025–2026

Trafodwyd y blaenoriaethau allweddol:

- Parch, Presenoldeb, Pedagogeg a Tîm YDC

Mynegodd rhieni ddiddordeb mewn derbyn mwy o ddiweddariadau ar gynnydd drwy gydol y flwyddyn.

Pwyntiau Gweithredu:

- Rhannu crynodeb o flaenoriaethau'r ysgol gyda rhieni drwy RHANNU ym mis Tachwedd 2025.
- Trefnu diweddariad canol tymor ar gyfer Fforwm Rhieni nesaf ym Mawrth 2026.

3. Cyfathrebu

Adolygwyd y sianeli presennol:

- E-bost, Class Charts, Gwefan, Cyfryngau Cymdeithasol, Papurau lleol a Cylchlythyrau

Adborth: Mae rhieni eisiau atgoffa'n gliriach ar sut i gysylltu â phobl allweddol yn yr ysgol drwy e-bost.

Awgrymiadau: Rhannu crynodeb o'r bobl allweddol a'u cyfeiriadau e-bost gyda rhieni drwy CYLCHLYTHYR.

Pwyntiau Gweithredu:

- Rhannu crynodeb o gysylltiadau allweddol ac e-byst drwy CYLCHLYTHYR (Hydref / Rhagfyr 2025).
- Annog rhieni/gwarcheidwaid i rannu straeon llwyddiant i'w cynnwys yn cyfathrebiadau'r ysgol.



4. Holiadur Haf 2025

Prif ganfyddiadau:

- Adborth cadarnhaol ar ddiogelu a chyfathrebu cyffredinol yr ysgol.
- Ceisiadau am eglurhad pellach ynghylch adrodd ar gynnydd disgyblion.

Cynllun: Defnyddio'r adborth ar gyfer cynllunio gwelliant.

Pwyntiau Gweithredu:

- Cyhoeddi crynodeb o ganlyniadau'r holiadur ar wefan yr ysgol.
- Ymgorffori'r adborth yn y cynllun gwelliant ar gyfer y flwyddyn nesaf.

5. Adroddiad Llawn yr Ysgol

Cododd rhieni gwestiynau am fformat adroddiad llawn yr ysgol.

Awgrymiadau:

- Cynnwys sylwadau mwy personol am ddisgyblion ar ddechrau'r adroddiad.

Pwyntiau Gweithredu:

- Ychwanegu adran ar ddechrau pob adroddiad ysgol gyda sylwadau gan y tiwtor dosbarth.
- Cynnwys cyflwyniad byr gan y Pennaeth ym mhob adroddiad.
- Gweithredu'r newidiadau ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025–2026.

6. Codi Arian

Awgrymodd rhieni y dylai'r ysgol ystyried:

- Easy Fundraiser a Sefydlu Clwb Cant

Pwynt Gweithredu:

- Pennaeth i ymchwilio i'r opsiynau posibl ymlaen llaw.

7. Sylwadau Cloi

Diolchodd y Pennaeth i'r rhai a fynychodd a chadarnhaodd dyddiad y cyfarfod nesaf: 17 Mawrth 2026.